Autumn/Winter 25 | Edition 08

AGRICULTURAL INDUSTRIES CONFEDERATION CYMRU

# AIC Cymru

WORKING IN SUPPORT OF **MODERN SUSTAINABLE COMMERCIAL AGRICULTURE**



## Welcome

**Dear AIC Members,**

**Welcome to the Autumn/Winter 2025 edition of AIC Cymru Journal, bringing you key updates on the issues, policies, and insights specific to Welsh agriculture.**

As we approach the close of 2025, AIC Cymru continues to evolve in response to the dynamic agricultural landscape. This period has seen renewed focus on collaboration and policy engagement, particularly around the Sustainable Farming Scheme, which remains central to the future of farming in Wales.

AIC Cymru has been active in representing Member interests, contributing to key discussions with the Welsh Government and industry stakeholders. Our commitment to ensuring a practical, fair and forward-looking agricultural policy remains steadfast.

In this edition, you'll find updates on the Sustainable Farming Scheme, policy briefings, highlights from recent events, and a look ahead at our priorities for 2026.



**Michael Muncey**
AIC Cymru Policy Manager

# The Sustainable Farming Scheme

**Ahead of the Royal Welsh Agricultural Show in July, announcements regarding the Sustainable Farming Scheme (SFS) were delivered by Huw Irranca-Davies (Deputy First Minister of Wales) to the Senedd (Welsh Parliament). The scheme is scheduled to come into effect in spring 2026. Funding will transition from the Basic Payment Scheme (BPS) to the SFS, with the budget remaining at £238 million. However, for those who choose not to participate, BPS will be reduced by 40%, creating a strong incentive for farmers to join.**

At the Royal Welsh Show, Rural Payments Wales launched a 'ready reckoner' online tool, enabling growers to input their farm details and receive an indicative calculation of their potential SFS payment. The scheme has been broadly welcomed, with farming unions expressing support due to their involvement in the ministerial roundtable that helped shape its development.

By the end of the year, an evaluation will be made based on four statutory 'indicators'. These will assess whether the intended outcomes of the Sustainable Land Management legislation, of which the SFS is a significant part, have been achieved. Or whether any unintended consequences have arisen. This evaluation has been commissioned to the Environment and Rural Affairs Monitoring and Modelling Programme (ERAMMP), facilitated by the Centre for Ecology and Hydrology in Aberystwyth. AIC Cymru has actively participated as a stakeholder in these workshops and discussions.

This autumn, farming unions have been hosting roadshows to explain the mechanics of the scheme and provide financial examples. These events have been well attended. The key message is for growers to check and update their farm data in the Rural Payments Wales system and to make an early decision about joining the scheme, particularly if they require support from farming union technicians.

# AIC Cymru at the Royal Welsh Show

At the Royal Welsh Show, AIC Cymru hosted a highly successful and well-attended drinks reception on the first evening in the International Pavilion. The event saw strong participation from stakeholders, Member businesses and political representatives, and was followed by positive social media coverage.

CAFC RWAS



# Senedd elections

With Senedd elections scheduled for May 2026, AIC Cymru has now published its election manifesto asks, available in both Welsh and English.

aic AGRICULTURAL INDUSTRIES CONFEDERATION CYMRU

SCAN ME

## AIC Cymru's Election Priorities

### 1 A comprehensive 'Farm to Fork' Food Strategy

AIC Cymru supports the call for a comprehensive strategy that includes ambitious targets, backed by policies and frameworks for the sustainable growth of the food and farming sector in Wales.

### 2 Agricultural policies that underpin food, nature, climate, and communities

The next Welsh Government must ensure policies support on-farm investment and provide at least the same level of stability to farm businesses, rural communities, and the supply chain as the Basic Payment Scheme.

### 3 A ring-fenced, multi-annual budget to support sustainable growth

Securing a ring-fenced, multi-annual budget of over £500 million ensures the financial resilience of family farms and rural communities, while meeting environmental and climate obligations.

### 4 Establishment of an Independent Review Group on regulatory burden

The next Welsh Government should establish an Independent Review Group to reduce regulatory burdens on agriculture by identifying and removing unnecessary or overlapping rules, creating a more supportive framework for farming.

### 5 A science and evidence-led approach to water quality

AIC Cymru supports farmers' role in water protection but sees current pollution regulations as overly complex and costly. Targeted legislative changes and a derogation from the organic nitrogen limit will make rules more practical and proportionate.

### 6 Adopting precision breeding to bolster climate-friendly food production

Precision breeding can help combat pest and disease pressures, improve animal health and welfare, optimise input use, and increase crop resilience to extreme weather. The next Senedd and Welsh Government must ensure that Wales is able to realise the benefits of these technologies.

# AIC Annual Parliamentary Reception

AIC Cymru Chair, Alister Davies (ForFarmers), and Michael Muncey attended AIC's annual parliamentary reception in September. This event offered AIC Cymru and its Member businesses a valuable opportunity to engage with several Welsh MPs from across the political spectrum. It has laid the groundwork for continued dialogue and future visits, strengthening relationships between the agri-supply industry and policymakers.






# Plaid Cymru Conference

**Michael Muncey attended the Plaid Cymru Conference and the combined fringe event hosted by NFU Cymru and the Farmers' Union of Wales (FUW), where both unions presented their election manifesto asks ahead of the 2026 Senedd elections.**

The event, opened by Plaid Cymru's Rural Affairs Spokesperson Llyr Gruffydd, featured contributions from Ian Rickman (FUW President) and Aled Jones (NFU Cymru President), who outlined shared priorities including fair agricultural funding, a comprehensive Welsh Food Plan, and reforms to reduce regulatory burdens on farmers.

Michael's presence reinforced AIC Cymru's commitment to collaborative policy development and amplifying rural voices in shaping future agricultural strategy. His attendance also coincided with the launch of AIC Cymru's own manifesto, which echoed calls for sustainable growth, food security and a resilient agri-food supply chain in Wales.








# Ed Barker joins Farmers’ Union of Wales panel

**As the Farmers’ Union of Wales (FUW) marked its 70th anniversary this autumn, the milestone was commemorated with a series of events that brought together key voices from across the agricultural sector. Among them was Ed Barker, AIC’s Head of Policy and External Affairs, who joined a panel discussion reflecting on the Union’s legacy and the future of Welsh farming.**

Held as part of the FUW’s celebratory programme, the panel provided a platform for open dialogue on the evolving challenges and opportunities facing agriculture in Wales. Topics ranged from succession planning and new entrant support to the implications of policy reform and sustainability schemes. Ed’s contribution highlighted the importance of collaborative policy development and the role of trade associations like AIC in shaping a resilient agri-food supply chain.

The event was not only a celebration of FUW’s rich history since its founding in 1955, but also a forward-looking forum that underscored the Union’s continued commitment to supporting family farms and rural communities. The panel discussion formed part of a wider programme that included receptions, policy launches and community engagement activities – reinforcing FUW’s position as a cornerstone of Welsh agricultural advocacy.

AIC’s engagement with FUW during this landmark year reflects a shared vision for the future of farming in Wales. As noted in the Q3 Journal 2025, AIC Cymru continues to build strong relationships with FUW and NFU Cymru, recognising the value of constructive dialogue and joint action on issues of mutual interest.




## Dates for the diary

AIC Cymru will be present at the Winter Fair in Builth Wells on 24–25 November. This will be an excellent opportunity to engage with Member businesses, political leaders, and stakeholders.

24-25 CAFC RWAS NOV 25




AIC AGRICULTURAL INDUSTRIES CONFEDERATION CYMRU

Agricultural Industries Confederation Ltd
First Floor, Unit 4 The Forum,
Minerva Business Park,
Lynch Wood, Peterborough, PE2 6FT.

Tel: 01733 385230
Email: enquiries@agindustries.org.uk
www.agindustries.org.uk

Design & Development by RDP
RDP COMMS

Hydref/Gaeaf 25 | Rhifyn 08

AGRICULTURAL INDUSTRIES CONFEDERATION CYMRU

# AIC Cymru

YN GWEITHIO I GEFNOGI **AMAETHYDDIAETH FODERN FASNACHOL A CHYNALIADWY**



## Croeso

**Annwyl aelodau AIC Cymru,**

**Croeso i rifyn hydref/gaeaf 2025 cyfnodolyn AIC Cymru, yn dod â'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y materion, y polisïau a'r mewnwelediadau sy'n benodol i amaethyddiaeth Cymru.**

Wrth i ni agosáu at ddiwedd 2025, mae AIC Cymru yn parhau i esblygu mewn ymateb i'r dirwedd amaethyddol ddeinamig. Mae'r cyfnod hwn wedi gweld ffocws o'r newydd ar gydweithio ac ymgysylltu â pholisi, yn enwedig o ran y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sy'n parhau i fod yn ganolog i ddyfodol ffermio yng Nghymru.

Mae AIC Cymru wedi bod yn weithgar yn cynrychioli buddiannau'r aelodau, gan gyfrannu at drafodaethau allweddol gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yn y diwydiant. Mae ein hymrwymiad i sicrhau polisi amaethyddol ymarferol, teg a blaengar yn parhau'n gadarn.

Yn y rhifyn hwn, fe welwch yr wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, briffiau am bolisi, uchafbwyntiau o ddigwyddiadau diweddar, a chipolwg ar ein blaenoriaethau ar gyfer 2026.



**Michael Muncey**
AIC Cymru Y Rheolwr Polisi

## Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

**Cyn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf, traddodwyd cyhoeddiadau o ran y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i'r Senedd gan Huw Irranca-Davies. Mae'r cynllun i fod i ddod i rym yng ngwanwyn 2026. Trosglwyddir cyllid o Gynllun y Taliad Sylfaenol i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gyda'r gyllideb yn parhau i fod yn £238 miliwn. Fodd bynnag, i'r rhai sy'n dewis peidio â bod yn rhan ohono, bydd Cynllun y Taliad Sylfaenol yn cael ei leihau 40%, gan greu cymhelliant cryf i ffermwyr ymuno.**

Yn Sioe Frenhinol Cymru, lansiwyd Taliadau Gwledig Cymru offeryn "cyfrifydd parod" ar-lein, gan alluogi amaethwyr i fewnbynnu manylion eu fferm a derbyn cyfrifiad dangosol o'u taliad posibl o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Yn gyffredinol, mae'r cynllun wedi cael croeso, gydag undebau'r ffermwyr yn mynegi cefnogaeth oherwydd eu cyfranogiad yn y bwrdd crwn gweinidogol a fu'n help i lunio datblygiad y cynllun.

Erbyn diwedd y flwyddyn, bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar bedwar "dangosydd" statudol i asesu a yw canlyniadau bwriadedig y ddeddfwriaeth rheoli tir yn gynaliadwy, y mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn rhan sylweddol ohoni, yn cael eu cyflawni, neu a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol wedi codi. Comisiynwyd y gwerthusiad hwn i'r Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd, a hwylusir gan y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg yn Aberystwyth. Mae AIC Cymru wedi cymryd rhan weithredol fel rhanddeiliad yn y gweithdai a thrafodaethau hyn.

Yr hydref hwn, mae undebau'r ffermwyr wedi bod yn cynnal sioeau teithiol i esbonio mecanwaith y cynllun a darparu enghreifftiau ariannol. Mae'r digwyddiadau hyn wedi denu presenoldeb da. Y neges allweddol yw bod angen i amaethwyr wirio a diweddaru data eu ffermydd yn system Taliadau Gwledig Cymru a gwneud penderfyniad cynnar ynghylch ymuno â'r cynllun, yn enwedig os oes angen cymorth arnynt gan dechnegwyr undebau'r ffermwyr.

# AIC Cymru yn Sioe Frenhinol Cymru

Yn Sioe Frenhinol Cymru, ar y noson gyntaf yn y Pafiliwn Rhyngwladol, cynhaliwyd derbyniad diodydd hynod lwyddiannus a phoblogaidd gan AIC Cymru. Gwelodd y digwyddiad ymateb cadarnhaol a chyfranogiad cryf gan randdeiliaid, busnesau sy'n aelodau a chynrychiolwyr gwleidyddol, ac fe'i dilynwyd gan sylw cadarnhaol yn y cyfryngau cymdeithasol.



# Etholiadau'r Senedd

Gyda etholiadau'r Senedd wedi'u trefnu ar gyfer mis Mai 2026, mae AIC Cymru bellach wedi cyhoeddi'r hyn y mae'n gofyn amdano mewn maniffestos etholiadol, sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

SGANIWCH FI

## Blaenoriaethau Etholiadol AIC Cymru

### 1 Strategaeth Fwyd Gynhwysfawr 'O'r Pridd i'r Plât'

Mae AIC Cymru yn cefnogi'r alwad am strategaeth gynhwysfawr. Dylai'r strategaeth hon gynnwys targedau uchelgeisiol wedi'u hategu gan bolisïau a fframweithiau ar gyfer twf cynaliadwy'r sector bwyd a ffermio yng Nghymru.

### 2 Polisïau amaethyddol sy'n tanategu bwyd, byd natur, hinsawdd a chymunedau

Rhaid i lywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod polisïau'n cefnogi buddsoddiadau ar ffermydd ac yn darparu o leiaf yr un lefel o sefydlogrwydd i fusnesau fferm, cymunedau gwledig, a'r gadwyn gyflenwi ag y mae Cynllun y Taliad Sylfaenol wedi'i wneud.

### 3 Cyllideb Amlflwydd wedi'i Chlustnodi i Gefnogi Twf Cynaliadwy

Mae sicrhau cyllideb amlflwyddyn wedi'i chlustnodi o dros £500 miliwn, yn sicrhau cydnerthedd ariannol ffermydd teuluol a chymunedau gwledig, gan gyflawni rhwymedigaethau amgylcheddol a hinsawdd.

### 4 Sefydlu grwp adolygu annibynnol ar gyfer y faich rheoleiddiol

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru sefydlu grwp adolygu annibynnol er mwyn lleihau beichiau rheoleiddio ar amaethyddiaeth drwy nodi a dileu rheolau diangen neu reolau sy'n gorgyffwrdd, gan greu fframwaith mwy cefnogol ar gyfer ffermio.

### 5 Dull sy'n cael ei arwain gan wyddoniaeth a thystiolaeth o ran ansawdd dwr

Mae AIC Cymru yn cefnogi rôl ffermwyr mewn diogelu dwr ond yn ystyried bod rheoliadau llygredd presennol yn rhy gymhleth a chostus. Bydd newidiadau deddfwriaethol wedi'u targedu a rhanddirymiad o'r terfyn nitrogen organig yn gwneud rheolau'n fwy ymarferol a chymesur.

### 6 Mabwysiadu bridio manwl i hybu cynhyrchu bwyd sy'n ystyriol o'r hinsawdd

Gallai golygu genynnau helpu i frwydro yn erbyn pwysau plâu a chlefydau, gwella iechyd a lles anifeiliaid, galluogi gwell defnydd o fewnbynnau, a chynyddu gwydnwch cnydau i ddigwyddiadau tywydd eithafol fel llifogydd a sychder. Rhaid i'r Senedd nesaf a Llywodraeth Cymru sicrhau bod Cymru'n gallu gwireddu buddion technegau bridio manwl newydd.

# Derbyniad seneddol blynyddol AIC

Mynychodd cadeirydd AIC Cymru, Alister Davies (ForFarmers), a Michael Muncey dderbyniad seneddol blynyddol AIC ym mis Medi. Roedd y digwyddiad hwn yn gyfle gwerthfawr i AIC Cymru a'r busnesau sy'n aelodau ymgysylltu â nifer o Aelodau Seneddol Cymru o bob cwr o'r sbectrwm gwleidyddol. Mae wedi gosod y sylfaen ar gyfer deialog barhaus ac ymweliadau yn y dyfodol, gan gryfhau'r berthynas rhwng y diwydiant cyflenwi amaethyddol a llunwyr polisi.






# Cynhadledd Plaid Cymru

**Mynychodd Michael Muncey gynhadledd Plaid Cymru a'r digwyddiad ymylol a gynhaliwyd gan NFU Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru, lle cyflwynwyd gan y ddau undeb yr hyn roeddent am ei weld mewn maniffestos etholiadol cyn etholiadau 2026 y Senedd.**

Roedd y digwyddiad, a agorwyd gan lefarydd yr amgylchedd a materion gwledig Plaid Cymru, Llŷr Gruffydd, yn cynnwys cyfraniadau gan Ian Rickman (llywydd Undeb Amaethwyr Cymru) ac Aled Jones (llywydd NFU Cymru), a amlinellodd flaenoriaethau cyffredin, gan gynnwys cyllid amaethyddol teg, cynllun bwyd cynhwysfawr i Gymru, a diwygiadau i leihau beichiau rheoleiddio ar ffermwyr.

Atgyfnerthodd presenoldeb Michael ymrwymiad AIC Cymru i ddatblygu polisïau ar y cyd ac i gryfhau lleisiau gwledig wrth lunio strategaeth amaethyddol y dyfodol. Roedd ei bresenoldeb hefyd yn cyd-daro â lansio maniffesto AIC Cymru ei hun, a oedd yn adleisio galwadau am dwf cynaliadwy, diogelwch bwyd, a chadwyn gyflenwi bwyd-amaeth wydn yng Nghymru.








# Ed Barker yn ymuno â phanel Undeb Amaethwyr Cymru

**Wrth i Undeb Amaethwyr Cymru nodi ei ben-blwydd yn 70 oed yr hydref hwn, dathlwyd y garreg filltir gyda chyfres o ddigwyddiadau a ddaeth â lleisiau allweddol ynghyd o bob cwr o'r sector amaethyddol. Yn eu plith roedd Ed Barker, Pennaeth Polisi a Materion Allanol AIC, a ymunodd â thrafodaeth panel yn myfyrio ar etifeddiaeth yr undeb a dyfodol ffermio yng Nghymru.**

Fel rhan o raglen ddathlu Undeb Amaethwyr Cymru, darparwyd platfform gan y panel ar gyfer deialog agored ar yr heriau a chyfleoedd esblygol sy'n wynebu amaethyddiaeth yng Nghymru. Roedd y pynciau'n amrywio o gynllunio olyniaeth a chefnogaeth i newydd-ddyfodiaid i oblygiadau diwygio polisi a chynlluniau cynaliadwyedd. Tynnwyd sylw gan Ed at bwysigrwydd datblygu polisïau ar y cyd a rôl cymdeithasau masnach fel AIC wrth lunio cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth wydn.

Nid dathliad o hanes cyfoethog Undeb Amaethwyr Cymru ers ei sefydlu yn 1955 yn unig oedd y digwyddiad, ond hefyd fforwm sy'n edrych ymlaen a oedd yn tanlinellu ymrwymiad parhaus yr undeb i gefnogi ffermydd teuluol a chymunedau gwledig. Roedd trafodaeth y panel yn rhan o raglen ehangach a oedd yn cynnwys derbyniadau, lansiadau polisïau a gweithgareddau ymgysylltu cymunedol, gan atgyfnerthu safle Undeb Amaethwyr Cymru fel conglfaen eiriolaeth amaethyddol Cymru.

Mae ymgysylltiad AIC ag Undeb Amaethwyr Cymru yn ystod y flwyddyn nodedig hon yn adlewyrchu gweledigaeth a rennir ar gyfer dyfodol ffermio yng Nghymru. Fel y nodwyd yng **nghyfnodolyn Ch3 2025**, mae AIC Cymru yn parhau i feithrin perthnasoedd cryf ag Undeb Amaethwyr Cymru ac NFU Cymru, gan gydnabod gwerth deialog adeiladol a gweithredu ar y cyd ar faterion o ddiddordeb i'r ddwy ochr.



## Dyddiadau ar gyfer y dyddiadur

Bydd AIC Cymru yn bresennol yn y Ffair Aeaf yn Llanfair-ym-Muallt ar 24 a 25 Tachwedd. Bydd hwn yn gyfle gwych i ymgysylltu â busnesau sy'n aelodau, arweinwyr gwleidyddol a rhanddeiliaid.

24-25 CAFC RWAS TACH 25




AGRICULTURAL INDUSTRIES CONFEDERATION CYMRU

Agricultural Industries Confederation Ltd
First Floor, Unit 4 The Forum,
Minerva Business Park,
Lynch Wood, Peterborough, PE2 6FT.

Tel: 01733 385230
Email: enquiries@agindustries.org.uk
www.agindustries.org.uk

Design & Development by RDP
RDP COMMS